

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad	4
2. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau	6
3. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi	11
a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni	11
b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol	14
c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	18
d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas	20
e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach	25
f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion	27
4. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith	31
a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol	31
b) Ein hadnoddau ariannol a'n cynlluniau i'r dyfodol	33
c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd	34
Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol	36
Rhestr termau	36

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych yn dangos sut rydym wedi hybu lles a gofalu am gyrraedd safonau lles yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Yn yr adroddiad, byddwn yn disgrifio'n glir y gwelliannau rydym wedi'u gwneud wrth ddarparu gwasanaethau i'r dinasyddion hynny sydd wedi cael gwybodaeth, cyngor a chymorth ac i'r unigolion a gofalwyr hynny sy'n cael gofal a chymorth ledled Sir Ddinbych.

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso perfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym wedi ymgysylltu ag ystod o fudd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys dinasyddion sydd wedi rhannu eu profiadau o dderbyn gofal a chymorth gan ein Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid sydd wedi bod yn gweithio gyda ni.

Byddwn yn egluro sut rydym wedi cyflawni 6 safon ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer canlyniadau lles:-

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol
3. Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion
4. Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
5. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
6. Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

1. Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad

- Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych 2019-20. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi asesiad teg o'r hyn yr aethom ati i'w gyflawni yn y flwyddyn hon, yr hyn rydym wedi'i wneud a'i gyflawni mewn gwirionedd a'r hyn sydd ar ôl i'w gyflawni.
- Ychydig a wyddem ar ddechrau'r flwyddyn hon y byddem yn profi ymyrraeth fawr tua diwedd y flwyddyn wrth i'r pandemig COVID-19 ddechrau effeithio ar bob un ohonom ym Mawrth 2020.
- Er hynny, rydym wedi cyflawni llawer yn ystod 2019-20 wrth i ddau o'n Timau Adnoddau Cymunedol sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn y Rhyl ac yn Rhuthun. Mae'r ddau Dîm Adnoddau Cymunedol arall arfaethedig ar gyfer Dinbych a Phrestatyn wedi cyrraedd gwahanol gamau yn eu datblygiad ond mae'r parodwydd i weld cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn sbarduno'r gwaith hwn.
- Gwelsom welliant sylweddol o ran yr ymatebion i ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol. Mae hyn yn dyst i'r ymdrechion a gafwyd gan y gwasanaeth cyfan i wella'r perfformiad ar hyn. Mae'r Fforwm Diogelu Addysg a ddatblygwyd hefyd yn cynnig cyfle i ymarferwyr Addysg ac ymarferwyr allweddol mewn Gwasanaethau Plant gael cyfarfod bob tymor i drafod a rhannu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag ymarfer diogelu.
- Ychydig a wyddem ar ddechrau'r flwyddyn hon y byddem yn profi ymyrraeth fawr tua diwedd y flwyddyn wrth i'r pandemig COVID-19 ddechrau effeithio ar bob un ohonom ym Mawrth 2020. Er ein bod yn bwriadu parhau i ddatblygu ein gwasanaethau, ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd cadw ein holl ddinasyddion yn ddiogel a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r prosiectau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys:
 - Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i helpu Gofalwyr drwy gyfryngau digidol yn ogystal â sianeli eraill.
 - Gwella mynediad, sgiliau a hyder ymysg dinasyddion agored i niwed a allai gael budd o ddulliau gofal a chymorth seiliedig ar dechnoleg ddigidol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Cyflwyno tîm aml-asiantaeth peripatetig ledled Sir Ddinbych a Chonwy i weithio gyda phlant a theuluoedd sy'n wynebu'r risg o leoli eu plant mewn gofal preswyl tymor hir.
- Sicrhau bod thema Diogelu yn rhan annatod o ymarfer pawb, yn cynnwys dysgu gwersi o archwiliadau Diogelu a/neu Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- Gweithredu'r Rhaglen Symud ag Urddas.
- Gwneud rhagor i ddatblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych, gan gydweithio â phartneriaid a gofalwyr i ganfod / lleihau bylchau mewn cymorth.

Nicola Stubbins



Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

2. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau

Yn ystod 2019 – 2020, llwyddom i gynnal ymgysylltiad da gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion ein dinasyddion. Rydym yn defnyddio nifer o dulliau gwahanol, o sicrhau bod y dinesydd yn ymgysylltu'n llawn wrth gytuno ar anghenion gofal a chymorth, drwodd iddyn nhw'n ein helpu i recriwtio ein staff a darparu adborth, naill ail drwy ein gweithdrefnau canmoliaeth a chwynion, ein harolwg blynyddol neu drwy drafodaeth gyffredinol ag ystod eang o staff ac aelodau etholedig. Fodd bynnag, yn ystod chwarter olaf y flwyddyn pan ddechreuodd y Coronafeirws ledaenu, roedd y dulliau ymgysylltu a oedd ar gael i ni'n gyfyngedig iawn, ond llwyddom i gadw dinasyddion wrth wraidd ein gwasanaethau.

Fe wnaeth ein gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ymdrin â thros 15,000 o ymholiadau yn ystod y flwyddyn, gyda 70% o'r rheiny'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth neu'n cael eu hatgyfeirio at ofal a chefnogaeth o ryw fath. Aeth 1850 o ddinasyddion yn eu blaenau i dderbyn asesiad a arweiniodd at ddatblygu cynllun gofal a chymorth â'r dinesydd.

Yn ystod 2019-20, mae ein tîm wedi mynychu 344 o Bwyntiau Siarad ac wedi cefnogi dros 3000 o Ddinasyddion. Drwy ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:

- Gwybodaeth i 2,875
- Gwybodaeth a Chyngor i 1,347
- Cymorth i 826

Roedd 100% o'r adborth a dderbyniwyd gan ddinasyddion a fynychodd y Pwyntiau Siarad yn gadarnhaol ac yn llawn canmoliaeth.

Yn ystod 2019-20, fe wnaeth 234 o ddinasyddion gysylltu gyda Chysylltiadau Cwsmeriaid, roedd 23% o'r rhain yn codi pryderon neu gŵyn a 180 o ddinasyddion yn canmol neu'n diolch naill ai i'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant neu Oedolion. Rhai enghreifftiau o gysylltiadau a gafwyd yw:

- “Yn dilyn ei ryddhau o'r ysbyty, cwynodd dinesydd nad oedd sêff allweddi wedi'i osod ar ei gyfer. Y rheswm am hyn oedd nad oedd yr achwynydd wedi llofnodi'r ffurflen ar gyfer y broses.”

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Cwyn nad oedd Gweithiwr Cymdeithasol wedi cyflawni proses diogelu Adran 47 yn gywir am ei fod wedi mynd i'r ysgol a siarad â merch yr achwynydd am gam-drin honedig – roedd yn anfodlon ar ganlyniad y broses.
- “Diolch i'r holl staff yn Llys Awelon. Diolch o galon am eich caredigrwydd tuag at Mam pan oedd hi'n byw yn Llys Awelon. Roedd symud i Llys Awelon yn gymorth mawr iddi a fyddai hi ddim wedi gallu gwneud heb y gofal ardderchog a gafodd.”
- “Mae'r cymorth a gefais wedi bod yn rhagorol. Maen nhw bob amser wedi mynd o'u ffordd i helpu a chynghori ar unrhyw broblemau neu anawsterau ac mae'n hawdd mynd atyn nhw bob amser, does dim byd yn ormod o drafferth ac maen nhw bob amser yn barod i wrando. Roedd yn bleser mawr cael cydweithio mor agos â'r tîm hwn ac mae hyn wedi bod yn llesol wedyn i'r person ifanc sydd wedi cael help gennyn ni i symud ymlaen.”

Yn dilyn gwerthusiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2018 – 19, rydym wedi gweithredu Hyfforddiant Rheoli Gwrthdaro / Cwynion ar draws Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. O ganlyniad, mae nifer y cwynion wedi gostwng ac ymddengys bod gan staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid well ymwybyddiaeth o sut i ymdrin â chwynion yn gywir.

Lle bynnag y bo modd, byddwn yn gwahodd dinasyddion i gymryd rhan yn y broses o recriwtio Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. Er enghraifft, wrth recriwtio staff Tai Yn Gyntaf, fe wnaethom sicrhau bod rhywun sydd â Phrofiad Bywyd o Ddigartrefedd yn rhan allweddol o'r ganolfan asesu ac yn cyfrannu at benderfyniadau recriwtio. Hefyd o fewn ein cartrefi gofal, wrth recriwtio'r Rheolwr Tîm newydd, fe wnaeth y preswylwyr gyfweld yr ymgeiswyr a darparu adborth, fe wnaeth hyn hefyd helpu'r broses o wneud penderfyniad mewn perthynas â phenodi ymgeisydd.

Gweler isod y dulliau amrywiol yr ydym wedi'u defnyddio i ymgysylltu â dinasyddion er mwyn helpu i siapio ein gwasanaethau unigol o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Pobl Hŷn

Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun – Ymgysylltir yn barhaus gyda thenantiaid presennol mewn perthynas â'r newidiadau ar y safle a'r effaith y gallai hyn ei gael ar eu hamgylchedd a gwasanaethau / prydau. Cyflawnir hyn drwy ein partneriaid, Grŵp Cynefin a Thîm Gofalwyr Cyngor Sir Ddinbych. Bydd rhagor o gyfarfodydd ymgysylltu ffurfiol yn cael eu cynnal â thenantiaid a'u teuluoedd yn ystod 2020-21.

Mae Age Connects yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phobl hŷn ar draws Sir Ddinbych.



Mewn nifer o'r cyfarfodydd hyn, mae cyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch materion lleol a datblygiadau a gwasanaethau newydd, yn ogystal â digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu lleol a chenedlaethol, megis Action on Elder Abuse Cymru ac ymgysylltiad Sir Ddinbych ar Vision Support / Byw Gyda Nam ar y Golwg RNIB.

Gofalwyr

Cwblhawyd arolwg Gofalwyr drwy borth Ymgysylltu Sgwrs y Sir yn ystod y flwyddyn i ddeall sut mae gofalwyr anffurfiol yn cael mynediad at wybodaeth, yr anawsterau y maent yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'u rôl gofalu a pha gyngor a gwybodaeth sydd ar goll yn eu barn nhw. Roedd nifer yr ymatebwyr yn is na'r disgwyl ond llwyddwyd i gasglu data defnyddiol sydd wedi ein helpu i ddatblygu'r gefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych.

Sylwadau gan ofalwyr:

- Rwyf wedi sylweddoli cyn lleied o wybodaeth a ddarperir i bobl sy'n dechrau gofalu, ac nid oes llawer o amser i chwilio am y wybodaeth honno wrth weithio.
- Mae seibiant i ofalwyr di-dâl yn hynod o werthfawr. Mae'n fy nghadw i fynd yn fy rôl gofalu ac mae'r staff yn gefnogol iawn.

O ganlyniad i'r arolwg, fe wnaethom ymgynghori ag unigolion a grwpiau gofalwyr i ddatblygu Llyfryn Gwybodaeth i Ofalwr a lansiwyd yn ystod Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2019.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Anableddau Dysgu

Cwblhawyd arolwg o gyfleoedd dydd a gwaith ar ddiwedd 2019 a oedd yn cymryd barn pob budd-ddeiliad allweddol i ystyriaeth. Roedd hyn yn cynnwys dinasyddion sydd eisoes yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dydd a gwaith, eu rhieni/gofalwyr, y staff a gyflogir o fewn y gwasanaethau hynny ac aelodau o'r Tîm Anableddau Cymhleth. Fe wnaeth dros 150 o unigolion gymryd rhan yn yr arolwg, gan amlinellu beth oedd yn gweithio'n dda o fewn y gwasanaeth a rhannu eu teimladau a'u syniadau o ran sut y gellir ei wella. Yn dilyn yr arolwg, cyflwynwyd argymhellion i foderneiddio'r gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion pobl ag Anableddau Dysgu a hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Fel rhan o'r arolwg, cynhaliwyd digwyddiad ym mis Tachwedd 2019 a gafodd ei gynhyrchu a'i gyflwyno ar y cyd â dinasyddion sydd ynghlwm â Chyfleoedd Dydd a Gwaith. Fe wnaeth 35 o ddinasyddion fynychu a chymryd rhan ar y diwrnod.

Mae hyn wedi dylanwadu ar y cynllun pilot Ymchwil Prosiect, a dywedodd nifer o'r cyfranogwyr mai'r hyn yr oedd arnynt ei eisiau fwyaf oedd gwaith am dâl.

Sylwadau gan rai a gymerodd ran mewn Cyfleoedd Gwaith:

- Rwy'n hoffi gweithio i Mcdonalds a derbyn tâl.
- Rwy'n mwynhau gweithio gyda'r tîm, mae rhai o'r tasgau'n ddifyr, megis gwaith dylunio ac addasu.

Gwasanaethau Plant

Mae'r fforwm Plant mewn Gofal (KIC) a sefydlwyd ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal Sir Ddinbych (rhwng 8 a 15 oed) yn parhau i gyfarfod.



Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae'r fforwm hwn yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gwrdd â'i gilydd, rhannu eu profiadau, a dweud beth sy'n mynd yn dda a beth hoffent ei newid. Rydym yn ymgynghori â'r grŵp ymgysylltu allweddol hwn yn rheolaidd i siapio ein gwasanaethau. Maent wedi dylanwadu ar amrywiaeth o'n prosesau yn ogystal â strwythur a chynnwys dogfennau allweddol, ac maent hefyd wedi cyfrannau at yr hyfforddiant a ddarperir i'n Gofalwyr Maeth. Mae'r bobl ifanc wedi meddwl am logo ac enw ar gyfer y clwb ac maent hefyd yn cyhoeddi newyddlen flynyddol am eu gweithgareddau.

Eleni, mae'r gwasanaeth hefyd wedi sefydlu'r fforwm KWC (Plant Sy'n Gofalu). Mae'r fforwm hwn yn rhoi cyfle i blant biolegol mewn teuluoedd maeth gyfarfod, rhannu eu profiadau a derbyn cefnogaeth gan gymheiriaid. Rydym yn cydnabod yr effaith y gallai maethu ei gael ar deuluoedd ac mae arnom ni eisiau cynnig y gefnogaeth a'r hyfforddiant gorau posibl i blant sy'n maethu, rydym yn credu y bydd y grŵp hwn yn helpu i siapio'r gefnogaeth a'r paratodau a gynigir i blant sy'n maethu i'r dyfodol.



Mae'r Fframwaith Sicrwydd Chwarterol yn parhau i gael ei gynhyrchu a chaiff y canfyddiadau eu cyflwyno i uwch reolwyr o fewn Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiadau'n amlinellu adborth gan ddinasyddion o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys adroddiadau Diwedd Lleoliad gan blant, rhieni a gofalwyr maeth, arolygon Dweud Eich Dweud, hunan-asesiadau Gofalwyr Maeth, Gofalwyr Ifanc a Phobl Sy'n Gadael Gofal.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

3. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi

a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Edrych ar ffyrdd arloesol o sicrhau bod ein dinasyddion yn gwybod pwy y gellir cysylltu â hwy ynghylch eu gofal a sut i gysylltu ag Un Pwynt Mynediad.
- Byddwn yn parhau i addasu a gwella Un Pwynt Mynediad yn unol â datblygu Timau Adnoddau Cymunedol, ynghyd â sicrhau bod gennym dîm hyfforddedig a chymwys i gyflenwi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ansawdd dda i ddinasyddion Sir Ddinbych.
- Cwblhau ein hadolygiad o'r gwaith o gyflwyno Cyllidebau Cymorth; datblygu prosesau a chanllawiau o'r gwersi a ddysgwyd; gwreiddio ymagwedd gadarnhaol o ran cymryd risgiau; a gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n darparwyr i sicrhau bod ein dinasyddion yn cael dewis a rheolaeth lawn dros eu hanghenion gofal a chymorth.
- Bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau gyda'r gwaith o weithredu arferion a phrosesau diwygiedig yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Yn ystod y 12 mis nesaf, canolbwyntir ar anghenion hyfforddi, gan gynnwys sgysrsiau cydweithredol ac asesu anghenion cymwys, sef y flaenoriaeth ar gyfer 2019.
- Hefyd, mae'r Gwasanaethau Plant wrthi'n adolygu ystod o swyddogaethau gweithredol i sicrhau gwerth am arian a systemau mwy darbodus. Mae gan y prosiectau unigol hyn eu cylchoedd gorchwyl eu hunain ac fe'u cadeirir gan swyddogion o ar draws y gwasanaeth.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Ni fu'n rhaid i 71% o'r oedolion a dderbyniodd gefnogaeth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu o 69% yn 2018-19. |
| <ul style="list-style-type: none">• Cafodd 80% o'r asesiadau ar gyfer plant eu cwblhau o fewn gwasanaethau statudol, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn gynt. |

Rydym wedi cyflwyno ffordd arloesol o hyrwyddo Un Pwynt Mynediad a Phwyntiau Siarad drwy bad presgripsiwn Pwyntiau Siarad a gynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â Meddygon Teulu. Y cwbl sydd angen i Feddygon Teulu ei wneud yw rhwygo slip sy'n cynnwys rhif cyswllt Pwynt Siarad ac Un Pwynt Mynediad lleol a'i roi i'r dinesydd yn ystod eu hymweliad.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae'r padiau hyn wedi cael eu dosbarthu ond nid oedd modd i ni werthuso eu heffaith yn sgil y mesurau a gyflwynwyd o ganlyniad i Covid-19.



Er mwyn sicrhau ein bod yn uwchsgilio'r tîm yn unol â gweithrediad a datblygiad Timau Adnoddau Cymunedol, cyflwynwyd sesiwn hyfforddiant wythnosol o'r enw Awr Bŵer. Mae'r pynciau a gaiff eu trafod yn y sesiynau hyn yn eang ac yn amrywiol ac yn ymgorffori technegau dysgu gwahanol gan gynnwys Y Model Camau Newid a Chredoau Iechyd. Mae asiantaethau gwahanol gan gynnwys Sefydliadau Trydydd Sector, ystod o dimau a rolau staff wedi darparu sesiynau Awr Bŵer yn aml drwy ddulliau anffurfiol, megis drwy gwisiau, gemau a thechnegau ymlacio er mwyn helpu i gynnal lles. Dywedodd un aelod o'r staff; "Mae'r oriau pŵer â chwisiau'n ysgafn ac yn hwyliog!"

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ymgysylltu gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys staff, dinasyddion a'u teuluoedd / gofalmwyr i ddatblygu'r achos busnes i gyflwyno Cyllidebau Cefnogi yn y modd mwyaf priodol. Penderfynwyd gweithredu Cardiau Rhagdaledig o fis Mawrth 2020 fel yr ateb gorau i:

- Waredu rhwystrau i bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ac mae hyn yn cefnogi amcanion strategol Gwasanaethau Cymorth Cymunedol mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol.
- Gwella mynediad, sgiliau a hyder dinasyddion diamddiffyn a allai elwa o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol.
- Sicrhau bod adnoddau mewn perthynas ag asesiadau ariannol ar gael ac yn hygyrch ar-lein.
- Cynorthwyo gweithrediad Cyllidebau Cefnogi ar draws timau sefydliadol i roi mwy o ddewis a rheolaeth i ddinasyddion dros gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn ddigidol yn ogystal â thrwy sianeli eraill i gefnogi Gofalwyr
- Cryfhau'r cynnig 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' drwy gydol siwrnai'r dinesydd, gan alluogi dinasyddion i ddatblygu gwytnwch a chynnal annibyniaeth.

Cryfhawyd y Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig. Fe wnaeth hyn ein galluogi i recriwtio gweithwyr therapiwtig ychwanegol i gefnogi ymyraethau dwys i'r teuluoedd hynny sydd â phroblemau diogelu a deinameg teuluol cymhleth. Datblygwyd llwybr atgyfeirio i hwyluso mynediad ymarferwyr at y gwasanaeth mewn achosion o argyfwng, ynghyd ag atgyfeiriadau ar gyfer gwaith cynlluniedig.

Ym mis Mawrth 2020 pan ddaeth y cyfnod clo Covid-19 i rym, bu'n rhaid cynnal asesiadau risg ar gyfer darpariaethau gwasanaeth, a pharhawyd i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb i'r rhai a oedd yn wynebu'r perygl mwyaf. Bu'n rhaid i'r gweithlu addasu i weithio o gartref yn gyflym iawn. Roedd dulliau cyswllt ar-lein yn caniatáu i ni barhau â chyfarfodydd statudol. Profwyd cryn dipyn o broblemau yn yr wythnosau cyntaf yn sgil y gwahanol blatfformau TG a ddefnyddir ar draws y rhanbarth ac anallu rhai staff i gynnal eu cyfarfodydd ar-lein eu hunain. Fodd bynnag, dylid nodi bod presenoldeb mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, Grwpiau Craidd, Adolygiadau Statudol o Blant Sy'n Derbyn Gofal a'r Panel Maethu wedi bod yn wych.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn ddigidol yn ogystal â thrwy sianeli eraill i gefnogi Gofalwyr.
Gwella mynediad, sgiliau a hyder dinasyddion diamddiffyn a allai elwa o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol.
Cryfhau'r cynnig 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' drwy gydol siwrnai'r dinesydd, gan alluogi dinasyddion i ddatblygu gwytnwch a chynnal annibyniaeth.
Datblygu Gwasanaeth a Llwybr Blynyddoedd Cynnar integredig newydd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein Timau Adnoddau Cymunedol, yn dysgu gan ein timau sydd wedi'u sefydlu yn y Rhyl a Rhuthun ac yn cyflwyno timau newydd yn Ninbych a Phrestatyn. Dylai datblygu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mwy di-dor o fewn Sir Ddinbych ein helpu i leihau nifer yr oediadau wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty.
- O fewn ein gwasanaethau iechyd meddwl, byddwn yn datblygu rhaglen ddysgu gydag ymagwedd adfer a lles, lle cynhelir sesiynau mewn lleoliadau priodol a hygyrch yn y gymuned fel modd o gyflenwi gwasanaethau lefel isel trwy ddull effeithlon ac economaidd. Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Sir Ddinbych i gefnogi'r datblygiad hwn, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn archwilio meysydd o arfer dda drwy Rwydwaith Dysgu Gogledd Cymru ar gyfer Lles.
- Byddwn yn gweithredu canfyddiadau'r adolygiadau o Wasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith ar gyfer rhai ag Anableddau Dysgu.
- Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n dinasyddion i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth ar bob cyfle.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol oedd 2.27 fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn – cynnydd o 1.95 yn 2018 -19.
Yr oedran cyfartalog ar gyfer oedolion sy'n mynd i gartrefi preswyl (gan eithrio nyrsio) oedd 81 oed – sydd wedi gostwng o 83 oed yn 2018-19.
Roedd 100% o blant sy'n derbyn gofal wedi cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad.

Yn ystod 2019-20, rydym wedi gwneud cynnydd da yn gweithredu a datblygu ein Tîm Adnoddau Cymunedol ar draws Sir Ddinbych. Y sylw gan un aelod o'r staff gofal cymdeithasol oedd; "Mae'n braf cael staff iechyd wedi'u cyd-leoli yn yr un swyddfa. Rydym yn trafod pethau ar y cyd; ac mae sgysiau wyneb yn wyneb llawer cynt a mwy effeithlon."

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Caiff dull mwy cydlynol ei ddefnyddio ar lefelau amrywiol ar draws y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, o osod cyfeiriad strategol i gyflawni gwasanaethau gweithredol. Er enghraifft; mae'r Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i adolygu dinasyddion a thrafod atgyfeiriadau newydd. Yn ogystal â hynny, mae Therapyddion Galwedigaethol o'r sector lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal Cyfarfodydd Symud a Thrin Cymhleth.

Rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd teiran yng nghartrefi dinasyddion pan mae gofal cartref yn cael ei gomisiynu, i sicrhau fod y cynllun gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn amlinellu anghenion unigol y dinesydd. Byddai Gweithwyr Cymdeithasol neu Therapyddion Galwedigaethol ac Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol yn cyfarfod â'r darparwr gofal cartref, y dinesydd a'u gofalywr yn eu cartrefi eu hunain er mwyn sicrhau bod yr asesiad a'r gofal a chefnogaeth ddilynol yn cael eu cyfathrebu a'u cytuno'n effeithiol.



Cynhaliwyd Diwrnod Meithrin Tîm ar gyfer aelodau staff Tîm Adnoddau Cymunedol Rhuthun yn y Ganolfan Sgiliau Coed. Prif bwrpas hyn oedd meithrin perthnasau, ac roedd cyfanswm o 24 o staff y Tîm Adnoddau Cymunedol yn bresennol, roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth Gofal Cymdeithasol, Therapyddion, Nyrsys Ardal, Gweithwyr Gofal Iechyd, Swyddogion Gweinyddol a thîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn.

Ar ddiwedd y sesiwn, casglwyd llawer o adborth ar yr agweddau cadarnhaol, yr heriau a'u teimladau a'u syniadau ar sut y gellir datblygu'r Tîm Adnoddau Cymunedol ymhellach.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddod o hyd i safleoedd priodol ym Mhrestatyn ac mae ardal yn Ysbyty Dinbych wedi'i nodi ar gyfer Tîm Adnoddau Cymunedol Dinbych. Rhagwelir y bydd Tîm Adnoddau Cymunedol Dinbych yn symud i'w swyddfeydd yn y misoedd nesaf.

Yn y cyfamser, mae'r timau'n parhau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn y meysydd hyn, ac yn dysgu gan y timau sefydledig yn y Rhyl a Rhuthun.

Fel rhan o ddatblygiad a gweithrediad rhaglen ddysgu â dull adfer a lles yn ein gwasanaethau iechyd meddwl, mae Partneriaeth Dysgu Sir Ddinbych wedi cynnal rhai sesiynau blasu a gweithgareddau hwyliog gyda'r nod o hyrwyddo iechyd meddwl a lles da.

Cynhaliwyd ymarfer mapio hefyd i nodi gweithgareddau a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan fudd-ddeiliaid amrywiol ac yn dilyn hyn, datblygwyd a chynhaliwyd rhaglen fer o ddigwyddiadau rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020.

Fe wnaeth strwythur y Bartneriaeth Ddysgu ddatblygu'n araf drwy gydol y flwyddyn, gydag adborth o'r sesiynau blasu'n helpu i lywio trafodaethau a siapio'r gwasanaeth.

Cynhaliodd staff Tŷ Mor (Gwasanaeth Iechyd Meddwl) sesiynau 5 Ffordd at Les a Gweithdy Adfer. Nod y sesiynau hyn oedd cyflwyno strategaethau y gallai'r mynychwyr eu defnyddio i gynyddu eu hapusrwydd, hyder, a'u hunan-barch, i leihau unigrwydd a gosod nodau i'r dyfodol i weithio tuag atynt.



Sefydlwyd cysylltiadau â Phrifysgol Bangor, a arweiniodd at 2 fyfyrwr yn gwirfoddoli i'r Cyngor gan ddarparu 2 grŵp yr wythnos i ddinasyddion a oedd yn mynychu'r ganolfan.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Gan eu bod yn gwneud hyn yn wirfoddol, roedd modd i ni ddarparu'r cyrsiau i'n dinasyddion heb unrhyw gostau ychwanegol i'r gwasanaeth.

Gwasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith – dechreuom weithredu canfyddiadau'r adolygiad, gan nodi lleoliadau amgen ar gyfer rhai gwasanaethau ac ymgysylltu â darparwyr drwy ddiwyddiad cwrdd â'r prynwr. Bydd y gwaith hwn yn datblygu ymhellach yn 2020-21 i gwblhau canfyddiadau'r adolygiad.

Fe wnaeth ein Gwasanaeth Plant fuddsoddi mewn hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithio i staff ar draws gofal cymdeithasol gydag uwch reolwyr hefyd yn cwblhau'r hyfforddiant ac yn mynychu gweithdai i ystyried sut y gellir sefydlu'r dull hwn ar draws y gwasanaeth.

Mewn ymateb cyflym i'r cyfnod clo Covid-19, cynhaliom asesiadau risg o'r achosion agored a rhoddom gynlluniau ar waith i sicrhau ein bod yn cadw cysylltiad parhaus. Mae ymweliadau wyneb yn wyneb wedi parhau ar gyfer achosion risg uchel gan gydymffurfio â'r cyngor iechyd a diogelwch priodol. Mae'r holl brosesau statudol wedi parhau i ddefnyddio technoleg gyda phresenoldeb rhagorol mewn adolygiadau Plant Sy'n Derbyn Gofal, Panel Maethu, Panel Mabwysiadu, Cynadleddau Achosion a Grwpiau Craidd.

Wrth ystyried y broblem o ran cyn lleied o blant a gaiff eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis i ddechrau derbyn gofal, nodwyd y canlynol fel achosion y broblem:

- Diffyg presenoldeb rhai teuluoedd – byddwn yn parhau i annog a chefnogi teuluoedd mewn perthynas â hyn
- Mae teuluoedd wedi nodi anawsterau o ran canfod a chofrestru â deintyddion – eto, byddwn yn ymdrechu i gefnogi unigolion â'r broblem hon.
- Rhoddodd rhai deintyddfeydd wybod am broblemau recriwtio sydd wedi arwain at ganslo apwyntiadau
- Canslwyd apwyntiadau ym mis Mawrth 2020 yn sgil Covid-19, sydd hefyd yn debygol o gael effaith ar berfformiad 2020-21.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Bwrw ymlaen â datblygiadau i sefydlu 4 Tîm Adnoddau Cymunedol integredig wedi'u cyd-leoli ar draws Sir Ddinbych i sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwasanaeth di-dor ac ymatebol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Parhau i ddatblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr ar draws y sir drwy drafodaethau ac ymgysylltu parhaus â phartneriaid a thrwy fforwm gofalwyr.

Cyflwyno tîm amlasiantaeth peripatetig ar draws Sir Ddinbych a Chonwy i weithio gyda phlant a theuluoedd sydd mewn perygl o gael eu lleoli mewn gofal preswyl hirdymor.

c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- O ystyried y Canllawiau Cenedlaethol diwygiedig, mae'r Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth yn datblygu Llawlyfr Polisi ac Ymarfer Amlasiantaethol i ategu'r Canllawiau Cenedlaethol a chefnogi ei ddefnydd ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd hyn yn cynnwys protocol rhannu gwybodaeth, gwahaniaeth a gytunwyd rhwng plant yr adroddwyd eu bod ar goll a phlant yr adroddwyd eu bod yn absennol, ynghyd ag eglurder y pwrpas a rennir o ran Cyfweiliadau Cyn Dychwelyd Adref ac ymateb amlasiantaethol priodol.
- Roedd archwiliadau wedi canfod bod angen i ni barhau i wella ansawdd cynllunio gofal, gan gynnwys cynlluniau amddiffyn plant. Byddwn yn parhau i ddatblygu safon dadansoddiadau gan weithwyr, ynghyd â chanlyniadau a nodwyd drwy hyfforddiant a gwreiddio fformatau adrodd newydd sy'n cynorthwyo i ganolbwyntio ar ganlyniadau.
- Yn ystod y 12 mis nesaf, byddwn yn cyflwyno o leiaf un ymarfer myfyrio ynghylch diogelu gan bob ymarferwr o fewn y Gwasanaethau Oedolion.
- Byddwn yn gwerthuso gweithrediad y Protocolau Hunanesgeulustod a Chelcio.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Cwblhawyd 91% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn yr amserlenni statudol – cynnydd o 23% o'i gymharu â 2018-19.

Roedd 4.7% o'r plant ar ein cofrestr amddiffyn plant yn ail-gofrestriadau, sy'n uwch na'r flwyddyn gynt.

Y cyfnod cyfartalog yr oedd plant yn aros ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn oedd 311 diwrnod – cynnydd o 253 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae ecsbloetio yn flaenoriaeth allweddol i Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych ac mae'n ymddangos ym mhob ymarfer o Atgyfeiriad Cychwynnol drwodd i asesiad a chymorth cydlynol i blant a theuluoedd. Er mwyn adolygu'r achoson risg uchel hynny rydym yn cynnal Panel Camfanteisio Amlasiantaeth misol lle mae'r plant a phobl ifanc mwyaf diamddiffyn yn cael eu hystyried. Mae'r cyfarfodydd yn boblogaidd gyda nifer o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol er mwyn rhannu arferion da a gwybodaeth leol a monitro plant a phobl ifanc risg uchel.

Mae diogelu mewn ysgolion wedi cynnwys adolygu'r polisi a gweithdrefnau newydd a sicrhau bod Arweinwyr Diogelu ym mhob ysgol yn hyderus yn eu rôl. Mae hyn wedi cynnwys pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar draws yr ysgolion i Benaethiaid ac Arweinwyr Diogelu Dynodedig wedi'u hwyluso gan Hyfforddwyr Diogelu Barnardo's. Mae'r Fforwm Diogelu Addysg hefyd yn darparu fforwm er mwyn i ymarferwyr Addysg a Gwasanaethau Plant allweddol gyfarfod bob tymor i drafod a rhannu materion ymarfer diogelu.

Yn ystod 2019-20, cyflwynwyd ymarfer lle'r oedd gofyn i weithwyr proffesiynol ein Timau Gwasanaethau Gweithredol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gwblhau 2 ymarfer myfyriol dros y flwyddyn, gydag o leiaf un ohonynt yn canolbwyntio ar ddiogelu. Dyma grynodeb o berfformiad y timau, bydd gwaith yn parhau i sicrhau ein bod yn cyflawni 100% o fewn pob tîm:

- Diogelu - cyflawnwyd 100%
- Tîm Adolygu – cyflawnwyd 100%
- Ardal y De – cyflawnwyd 100%
- Ardal y Gogledd – cyflawnwyd 65%
- Anabledau Cymhleth – cyflawnwyd 90%

Cwblhawyd y broses o werthuso gweithrediad y Protocol Hunanesgeulustod a Celcio gan y tîm diogelu. Roedd tystiolaeth bod gan ymarferwyr ar draws y timau ardal rywfaint o wybodaeth am y protocol hwn, a llwyddwyd i ddatblygu hyder i'w ddefnyddio ymhellach gyda chefnogaeth uniongyrchol gan y tîm Diogelu. Roedd ymarferwyr yn teimlo bod y ddogfen hon yn ddefnyddiol iawn ac mae tystiolaeth bod y protocol wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi dinasyddion yn Sir Ddinbych.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Sicrhau fod pob ymarferwr yn bodloni'r dyddiad cau o 7 diwrnod i gwblhau ymholiadau diogelu.
Sicrhau bod y thema Diogelu wedi'i wreiddio yn arferion pawb, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd o archwiliadau Diogelu a / neu Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
Sefydlu'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan diwygiedig ar draws Gwasanaethau Plant.

d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Mae'r Prosiect Ailasesu'n parhau, rydym wedi penodi Therapydd Galwedigaethol profiadol i fynd â'r prosiect i'r cam nesaf, sef adolygiad o ddinasyddion sydd ag anghenion a pheccynnau cymhleth, gyda golwg ar weld a allwn leihau dibyniaeth ar ofal a chymorth gyda chyfarpar arbenigol, gan felly hybu annibyniaeth, urddas a chyflawni beth sy'n bwysig.
- Mae arnom ni eisiau gweld ein hybiau cymunedol ar gyfer Anableddau Cymhleth yn aeddfedu ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau bosibl ar gyfer y dinasyddion. Mae arnom ni eisiau gweld ein gwasanaeth Llyw-wyr Cymunedol yn datblygu, mae Llywiwr Cymunedol yn rhan annatod o bob Tîm Adnoddau Cymunedol. Mae arnom ni eisiau gweld mwy o enghreifftiau o ddinasyddion yn cael eu cysylltu â'u cymunedau lleol a rhagor o enghreifftiau o fentrau cyffrous ar y cyd â llyfrgelloedd, y celfyddydau ac ysgolion
- Eleni, byddwn yn gweithredu yn ôl canfyddiadau Oedi ac Adolygu Pwyntiau Siarad wrth wneud ein 8 Pwynt Siarad ar draws Sir Ddinbych yn hyd yn oed gwell ar gyfer dinasyddion Sir Ddinbych. Mae arnom ni eisiau i'n cymunedau 'gymryd perchnogaeth' o Bwyntiau Siarad. Gyda phartneriaid, mae arnom ni eisiau sefydlu rhagor o bwyntiau Gwybodaeth Lles yng nghanol cymunedau ynghyd â dynodi hyrwyddwyr mewn swyddfeydd post, ysbytai ac ati.
- Gweithio gyda phrosiectau a gomisiynwyd gan Cefnogi Pobl i sefydlu gwell mecanweithiau / cynigion o gymorth i annog a chaniatáu pobl ifanc mewn tai â chymorth i gael swydd
- Bydd yr adolygiad o wasanaethau sy'n darparu cyfleoedd gwaith ac yn ystod y dydd (gwasanaethau Anabledd Dysgu) yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2019. Byddwn yn parhau i archwilio opsiynau o ran gwasanaethau Hyd Oes ('Lifespan') ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Rydym wedi gwneud cais am gyllid i ganiatáu i Therapydd Galwedigaethol ymuno â'r Clwstrwr Byw yn y Gymuned i weithio gydag unigolion sy'n trosglwyddo o wasanaethau ieuenctid i gynnal asesiadau a chynllunio'n gynnar er mwyn sicrhau gweithgareddau a llety mwy cynaliadwy.

- Datblygu pecyn cymorth ar gyfer caniatáu i roi cynllun 'Work Start' ar waith ar gyfer 14 o unigolion eraill yn 2019-20.
- Adolygu a gwella mynediad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Sy'n Gadael Gofal yn Sir Ddinbych i gael cyfle i gymryd rhan mewn lleoliad gwaith a/neu gynllun hyfforddeiaeth gydag awdurdod lleol
- Datblygu lleoliad preswyl 2 neu 3 diwrnod o hyd ar gyfer cyfanswm o 40 o blant sy'n derbyn gofal a fydd yn cynnwys Sgiliau Bywyd e.e. coginio, cyllidebu/cyllid, cyflogaeth, iechyd meddwl a rhyngweithio/sgiliau cymdeithasol
- Arddangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal y rhoddwyd cymorth iddynt gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Roedd 11% o blant sy'n derbyn gofal wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol dros y cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent yn ymwneud â threfniadau pontio. Mae hyn yn uwch na ffigur 2018 -19 ond yn parhau i fod yn is na'r ffigur o bron i 14% yn 2017-18.

Ers mis Ionawr 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar Ofal a Chefnogaeth Maint Cywir (a elwir yn Symud Gydag Urddas) o fewn y Tîm Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Mae'r Therapydd Galwedigaethol yn bwrw ymlaen â chynlluniau ymarferol i weithredu newidiadau i'r ffyrdd y mae preswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu hasesu ac i gael cefnogaeth symud a chodi.

Am y 12 mis cyntaf, mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y broblem, ymchwilio i arfer orau, a nodi ffyrdd o ddarparu hyfforddiant effeithiol ac ymgysylltu â'r grwpiau staffio cywir (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, cydweithwyr y GIG a Darparwyr Annibynnol).

Bydd y rhaglen hyfforddi a gweithredu yn dechrau yn ystod 2020–21.

Dyma grynodeb o fuddion y prosiect:

- Fe allai'r prosiect ryddhau capasiti o fewn asiantaethau gofal i gasglu mwy o gleientiaid os bydd llai o angen am becynnau gofal a gaiff eu darparu gan fwy nag un darparwr, gan mai'r pecynnau hyn sy'n anoddach i'w comisiynu.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Mae'n bosibl y bydd modd cyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a thrwygyrch.
- Fe allai leihau'r angen i drefnu staff gofal uwch a Nyrsys Ardal i gefnogi dinasyddion nad yw darparwyr allanol yn gallu bodloni eu hanghenion
- Fe allai gael effaith gadarnhaol ar les a synnwyr o reolaeth dinasyddion a'u gofalwyr, gan gynyddu gwytnwch ac ymgysylltiad.
- Byddai dull cyffredin ar gyfer pob dinesydd, beth bynnag yw eu ffynhonnell cyllid gofal a chefnogaeth yn symleiddio prosesau ac yn lleihau'r pwysau ar staff Cymunedol.
- Byddai sail gwybodaeth a dull cyffredin yn gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'n dinasyddion ac yn hyrwyddo sefydlogrwydd drwy gydol siwrnai'r dinesydd os bydd eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn newid i ganolbwyntio ar iechyd yn hytrach nag elfennau cymdeithasol.
- Byddai sail gwybodaeth cyffredin ynghylch offer a phrosesau ar draws grwpiau staff cymunedol yn gwella cysondeb gofal a chefnogaeth a chydweithio.

O fewn ein Gwasanaeth Anableddau Cymhleth, rydym wedi sefydlu elfen dderbyn yn y tîm sy'n caniatáu i bob asesiad gael ei chwblhau mewn modd prydlon ac amlddisgyblaethol. Cynigir unrhyw gefnogaeth neu gymorth uniongyrchol ar y pwynt cyswllt cyntaf hwn. Mae'r tîm Hwb Siarad bellach yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, cyfeiriadau neu waith tymor byr mwy cymhleth yn cael eu dyrannu a'u cwblhau yn brydlon. Mae'r dull hwn hefyd yn galluogi'r staff i sicrhau bod adolygiadau'n cael eu gweithredu heb fod angen rhestrau aros diangen. Mae'r prosesau hyn yn newydd ac yn parhau i ddatblygu, ac mae'r gwaith cyd-gynhyrchu arfaethedig â grwpiau a datblygu adnoddau a gwytnwch cymunedol wedi arafu o ganlyniad i Covid-19, ond mae cynlluniau ar y gweill i ail-ymweld â'r gwaith hwn fel rhan o'r adferiad yn dilyn Covid-19.

I'n helpu i roi gwasanaethau Hyd Oes ar waith i'r rheiny ag anableddau cymhleth, fe wnaeth y tîm ddechrau drwy gwmpasu gwasanaethau awdurdodau eraill yng Nghymru i nodi arferion da a mesur datblygiadau timau o ran addasu i fodloni anghenion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso'r wybodaeth a gesglir ac yn adolygu'r gwahaniad timau 0-18 a dros 18 oed o fewn Cyngor Sir Ddinbych.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Sefydlwyd prosiect i alluogi dinasyddion i gael y lefel gywir o lety â chymorth cyn gynted â phosibl yn ystod unrhyw newidiadau sylweddol yn eu bywydau, p'un a yw hynny'n golygu symud allan o gartref y teulu neu ail-asesu a yw llety preswyl, yn arbennig y tu allan i'r sir, yn parhau i fod yn ofynnol. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys datblygu dulliau darpariaeth gwasanaeth integredig a chydweithredol newydd sy'n hyrwyddo symud ymlaen o leoliadau presennol.

Mae ffocws hefyd ar waith ataliol drwy fewnbwn arbenigol yn ystod y cam cynllunio. Mae gweithio gyda theuluoedd cyn gynted â phosibl yn ein caniatáu i hyrwyddo lleoliadau byw â chymorth lleol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel opsiwn amgen i leoliadau preswyl tymor byr y tu allan i'r sir.

Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni gynyddu buddsoddiad mewn dulliau gwerth cymdeithasol o ddarparu gofal, symud i ffwrdd o'r dull cymorth preswyl tuag at ddarpariaeth gymesur mewn lleoliadau cymunedol gan ddefnyddio adnoddau cymunedol.

Rydym wedi parhau i weithio gyda darparwyr a gomisiynwyd gan Cefnogi Pobl i sefydlu gwell mecanweithiau/cynigion cymorth i annog a chaniatáu pobl ifanc mewn tai â chymorth i gael swydd.

Dyma rai o'r pethau yr ydym wedi'u cyflawni hyd yma:

- Rydym wedi parhau i weithio gyda'n darparwyr a gomisiynwyd i ddarparu mwy o ddulliau gweithio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac mae cyflogaeth / hyfforddiant / addysg yn feysydd canlyniadau allweddol ar gyfer y bobl ifanc yn ein tai â chymorth.
- Mae gwaith partneriaeth gyda sefydliadau megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, a'n Tîm Sir Ddinbych yn Gweithio, wedi cynnig rhagor o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn ein prosiectau tai â chymorth.
- Rydym yn gweithio gyda phrosiectau lle bynnag y bo modd i geisio meddwl am ddatrysiadau unigol, ond rydym yn wynebu rhwystr allweddol yn dragwyddol. Mae prosiectau tai â chymorth sy'n codi rhent ar gyfraddau sy'n gyfartal â / llawer nes at gyfradd y Lwfans Tai Lleol yn lleihau'r rhwystr hwn i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau o'r prosiectau hyn yn brin. Bydd yn rhaid i ni barhau i archwilio cyfleoedd am ragor o ddarpariaethau fel hyn, a fydd yn ariannol hyfyw i ddarparwyr.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Bydd darparwyr yn aml yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n dod o hyd i gyflogaeth er mwyn eu helpu i symud ymlaen i lety annibynnol (gyda chefnogaeth yn ôl yr angen) unwaith y bydd hynny'n hyfyw, ond mae rhwystrau sylweddol mewn perthynas â hyn hefyd.
Mae'r farchnad rentu'n rhy ddrud i nifer o bobl ifanc (er eu bod yn ennill cyflog) neu mae polisïau landlordiaid neu asiantau rhentu eraill, yn arbennig mewn perthynas ag oedran, yn eu heithrio.
- Mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo er mwyn meithrin perthnasau â landlordiaid, ac mae'r Un Llwybr Mynediad at Dai yn rhoi blaenoriaeth i unigolion sy'n symud ymlaen o'r gwasanaeth tai â chymorth - fodd bynnag, mae'r stoc dai cymdeithasol yn parhau i fod yn isel ar draws y bwrdd.

Rydym yn parhau i fod mewn sefyllfa anodd iawn yn sgil gwirionedd rhenti tai â chymorth ynghyd â pholisïau cenedlaethol ar hawl i fudd-dal tai. Yn anffodus, mae pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth ac yn byw yn ein tai â chymorth yn ei chael yn anodd gweld y buddion ariannol o ennill cyflog. Mewn rhai achosion, bydd pobl ifanc ar eu colled yn ariannol, ac yn wynebu ôl-ddyledion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu atebion arloesol i'r sefyllfa hon.

O ganlyniad i'r cyfnod clo Covid-19, mae'r defnydd o dechnoleg i ryngweithio wedi bod yn boblogaidd ymysg pobl ifanc ac mewn rhai achosion, dyma'r dull cyfathrebu ffafriol.

Er mwyn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o gau ysgolion yn genedlaethol, roedd gofyn i ysgolion ddarparu manylion y disgyblion a nodwyd fel plant diamddiffyn. Ystyriwyd y rhestr hon gan staff ar draws y sector Addysg a Gwasanaethau Plant. Roedd pob enw wedi eu croes-gyfeirio gyda chronfa ddata cleientiaid y Gwasanaethau Plant a nodwyd yr wybodaeth berthnasol.

Rhoddyd cynlluniau ar waith ar gyfer pob un o'r plant a nodwyd er mwyn cadw cysylltiad dros y cyfnod clo a arweiniodd at gau ysgolion, gan ddefnyddio staff ar draws y sector Addysg a Gwasanaethau Plant yn ogystal â staff ysgolion. Cytunwyd hefyd ar broses uwchgyfeirio pe bai cysylltu â phlant diamddiffyn yn creu problemau.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Cytunwyd ar lwybr ar draws Addysg a Gwasanaethau Plant i sicrhau bod achosion agored yn derbyn llefydd mewn canolfannau ysgol a bod plant diamddiffyn yn cael eu hasesu'n briodol i sicrhau bod llefydd ar gael i'r rheiny sydd fwyaf eu hangen.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Adeiladu ar gysylltiadau presennol a datblygu cysylltiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Sir Ddinbych yn Gweithio a chyflogwyr posibl eraill i greu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith i bobl ddiamddiffyn iau.

Gwella mynediad, sgiliau a hyder dinasyddion diamddiffyn a allai elwa o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol.

Gweithredu Rhaglen Symud gydag Urddas.

e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Byddwn yn dysgu o brofiadau ein gofawyr lleol drwy wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch a sicrhau bod gennym 1 Aseswr Gofalwyr ym mhob Tîm Adnoddau Cymunedol er mwyn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol a dileu rhwystrau i ofalwyr.
- Byddwn yn parhau i weithredu ac ymestyn y gwaith o gyflenwi'r prosiect Cefnogi Rhieni er mwyn cynnig ymagwedd 'Solihull Understanding Comes Before Change' i hyrwyddo rianta cadarnhaol i bob riant yn Sir Ddinbych.
- Cynyddu capasiti (mewnol a'r trydydd sector) ar gyfer gwasanaethau ataliol i gefnogi mwy o ofalwyr sy'n dod ymlaen i gael cymorth, fel canlyniad uniongyrchol i Brosiect Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych.
- Gweithredu a gwreiddio argymhellion a champau gweithredu o Fenter Mesur y Mynydd Llywodraeth Cymru.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni.

Fe wnaeth 8% o blant sy'n derbyn gofal ddychwelyd adref o leoliad gofal yn ystod y flwyddyn, sy'n uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Roedd canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth ac wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn 10%, sydd yr un fath â'r llynedd.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom recriwtio 4 aseswr gofalwyr sydd bellach yn aelodau sefydledig ym mhob un o'n Timau Adnoddau Cymunedol ac maent yn parhau i ddatblygu perthnasoedd cryf gydag aelodau'r timau hyn. Maent bellach hefyd yn rhan allweddol o'r Fforymau Cymheiriaid rheolaidd lle mae'r timau'n gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar strategaethau ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth a nodi'r angen a'r lefelau cymorth.

Mae Fflatiau Gwestai'n parhau i fod ar gael o fewn Cyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol ar gyfer seibiannau gofalwyr. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r cyfleuster yn amrywio dros y flwyddyn ac fe'i hyrwyddir yn rheolaidd i dimau gweithredol i annog ei ddefnydd.

Dechreuom ddatblygu menter newydd o'r enw'r Gwasanaeth Aros Gartref (STAHS) er mwyn lleihau'r angen i bobl fynd i'r ysbyty, ond rydym wedi oedi'r gwasanaeth hwn yn sgil y pandemig Covid-19.

Tua diwedd 2019-20, bu'n rhaid i ni ddibynnu mwy ar dechnoleg a chyfarfodydd ar-lein er mwyn ymgysylltu â Phlant Sy'n Derbyn Gofal a Phobl Sy'n Gadael Gofal. Rydym wedi defnyddio cyllid grant lle bo hynny'n addas i ddarparu datrysiadau technoleg priodol. O ganlyniad i'r dull hwn, mae gofalwyr maeth wedi ymgysylltu mewn modd cadarnhaol ac mewn sawl achos wedi gwella perthnasoedd rhwng rhieni biolegol a gofalwyr.

Rydym hefyd wedi cyflwyno system negeseuon fel modd o gefnogi cymheiriaid.

O fewn Sir Ddinbych, rydym wedi adolygu argymhellion Menter Mesur y Mynydd Llywodraeth Cymru ac wedi gwahodd dinasyddion i ymuno â Phanel Ymgynghorol y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae 10 o ddinasyddion wedi dangos diddordeb mewn ffurfio Panel Ymgynghorol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â nhw a chytuno ar sut y dylai'r Panel weithio.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Adolygu'r ddarpariaeth gofal plant a gofal seibiant i rieni â phlant sydd ag anghenion ychwanegol a chymhleth, a datblygu'r ddarpariaeth o fewn lleoliadau gofal plant presennol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Datblygu Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal gwell ac ehangach, gan ganolbwyntio ar gefnogi plant i aros yn eu cartref neu ddychwelyd adref fel rhan o'r strategaeth er mwyn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel.

Datblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr Sir Ddinbych, gweithio gyda phartneriaid a gofalwyr i nodi / lleihau bylchau mewn cefnogaeth.

f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Gwreiddio rôl yr Ymarferwr Gofal Cymdeithasol Dementia o fewn pob un o'r 4 Tîm Adnoddau Cymunedol, ac edrych i weld sut y gall y rolau hyn gefnogi datblygiad cymunedau a sefydliadau sy'n dementia gyfeillgar yn Sir Ddinbych
- Mynd ati'n weithredol i weithio tuag at gyflawni Cyngor Sir Ddinbych Sy'n Dementia Gyfeillgar.
- Parhau i ddatblygu Pwyntiau Siarad fel 'mannau diogel' yn seiliedig ar adborth o'r ymarfer Oedi ac Adolygu diweddar.
- Parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Landlordiaid o'r Sector Rhent Preifat i ganfod llety addas ar gyfer prosiectau tai â chymorth – byddai hyn yn cynnwys y bobl ifanc hynny sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.
- Anelu tuag at ddatblygu rhaglen o waith, gan gynnwys cyflwyniad DVD sydd wedi'i ddatblygu gan bobl ifanc i'w ddefnyddio mewn ysgolion, sy'n nodi'r materion a'r heriau i'r unigolyn o ran digartrefedd, ynghyd â'r effaith ar iechyd emosiynol yr unigolyn ifanc
- Parhau i weithio tuag at gynyddu niferoedd y gofalwyr maeth mewn marchnad eithriadol o gystadleuol.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Roedd 50% o'r bobl sydd wedi gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal ac roedd hyn yn cynyddu i 62% 24 mis ar ôl gadael gofal.

Mae 15% o'r bobl sy'n gadael gofal wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn, sy'n debyg i ffigur y llynedd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Prosiect Cyngor Sy'n Dementia Gyfeillgar

Llwyddodd y Tîm Prosiect Cyngor Sy'n Dementia Gyfeillgar i dderbyn cydnabyddiaeth gan y Gymdeithas Alzheimer's i weithio tuag at fod yn sefydliad sy'n dementia gyfeillgar.

Ymrwymom i:

- gwblhau ein Cynllun Gweithredu gweithgareddau a chynnal ein proses gydnabod flynyddol.
- gwahodd unigolion sy'n byw â dementia, a'u gofalwyr, i'n fforwm.
- rhannu arferion da gyda holl wasanaethau'r cyngor.
- helpu cydweithwyr i dderbyn hyfforddiant priodol (e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia).

Rydym eisoes wedi codi ymwybyddiaeth am Dementia ar draws y Cyngor, a bydd ein gweithgarwch i'r dyfodol yn parhau i addysgu personél am y cyflwr hwn. Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth / Cyfeillion Dementia i staff a chynghorwyr. Byddwn yn parhau i gynnal hyfforddiant am ddim gan y Gymdeithas Alzheimer's a byddwn yn ceisio hyfforddi Hyrwyddwyr Dementia a fydd yn hyfforddi cydweithwyr o fewn ein sefydliadau.

Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia

Er mwyn datblygu ein 4 Tîm Adnoddau Cymunedol, ychwanegom 2 Weithiwr Cefnogi Dementia annibynnol at bob un. Mae'r gweithwyr hyn wedi bod yn cysylltu â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Pobl Hŷn, gweithwyr iechyd meddwl presennol a'r Trydydd Sector er mwyn cynyddu lefel y gefnogaeth broffesiynol i ddinasyddion sy'n byw â dementia a'u Gofalwyr.

Sylwadau gan staff CRT ynghylch gwaith Gweithwyr Cymorth Dementia:

- Mae rhai o'r syniadau arloesol a chreadigol a gaiff eu defnyddio neu eu trafod wedi bod yn wych! Rwyf wrth fy modd ein bod yn defnyddio llefydd megis Sgiliau Coed Bodfari a Loggerheads fel adnoddau yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau gofal dydd ffurfiol – mae'n gynnydd enfawr i ni fel gwasanaeth ac hefyd yn fuddiol i'r unigolion yr ydym yn gweithio â nhw!
- Mae'r Gweithwyr Cefnogi Dementia wedi cael effaith gadarnhaol iawn – nid yn unig ar y Tîm a'r Tîm Adnoddau Cymunedol, ond yn bwysicach fyth, ar y dinasyddion y maent yn gweithio â nhw sy'n byw a Dementia.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Mae ganddynt yr amser i ymchwilio i offer, adnoddau a gwasanaethau newydd sydd ar gael i gefnogi ein dinasyddion sy'n byw â Dementia ac maent eisoes wedi cyflwyno Doliau, Cŵn Dementia ac ati i'n Gwasanaeth Offer Cymunedol sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn â rhai o'n dinasyddion.

Darparu cefnogaeth allgymorth hyblyg ar ffurf 'tîm o amgylch yr unigolyn', y canlyniad hirdymor yw bod dinasyddion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn derbyn cefnogaeth gan dîm sy'n wybodus ac yn meddu ar sgiliau arbenigol mewn perthynas â dementia. Y canlyniad yw bod dinasyddion sy'n byw â dementia'n cynnal eu hannibyniaeth ac yn aros gartref am gyfnod hirach.

Tai â Chymorth

Parhawyd i weithio gyda Landlordiaid y Sector Rhentu Preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i nodi cyfleodd i gynyddu'r ddarpariaeth tai â chymorth ar draws y sir.

Yn ystod 2019-20, roedd y Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol wedi gofyn am gyngor cyfreithiol a bellach bydd hyn yn caniatáu cynllunio ar lefel is-ranbarthol ar gyfer llety i bobl ag Anableddau Dysgu ac anghenion cymhleth. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddechrau gweithio gyda dinasyddion sy'n byw y tu allan i'r ardal sydd am ddychwelyd i'r ardal leol a chynllunio ar gyfer y rheini sy'n gadael Gwasanaethau Plant ac yn pontio i Wasanaethau Oedolion. Mae tua 10 o bobl ar y rhestr honno yn Sir Ddinbych a bydd y gwaith yn parhau yn 2020-21.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Gweledigaeth y Pwyntiau Siarad – crynodeb o'r prif gyflawniadau

Ebrill 2019

Cynyddu'r nifer o apwyntiadau a drefnwyd gan yr Un Pwynt Mynediad.

Tîm Ardal y De wedi cwrdd i gytuno ar system generig.

Adolygu aelodaeth y Grŵp Llywio Pwyntiau Siarad.

Y tîm TGCh wedi datrys problemau â Wi-Fi yn Llangollen.

Mai 2019

Parhau i ddatblygu Pwyntiau Siarad y De.

Ymgysylltu gan yr holl bartïon i ddatblygu mwy o gydweithio.

Cynhyrchu cylchlythyr Pwyntiau Siarad.

Mehedin 2019

Padiu presgripsiwn Pwyntiau Siarad ym meddygfeydd meddygon teulu.

Gorffennaf 2019

Hybu ymwybyddiaeth ymysg aelodau etholedig a chynghorwyr tref.

Awst 2019

Y tîm cyfathrebu wedi hybu ymwybyddiaeth ymysg holl staff y cyngor.

Medi 2019

Cynyddu'r defnydd o Skype a WebEx er mwyn gwella hygyrchedd.

Ionawr 2020

Recriwtio gwirfoddolwyr o gymunedau lleol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Gwasanaeth Maethu

Mae ein Gwasanaeth Maethu wedi cydweithio â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i wella maethu ar draws y sir a gwella'r gefnogaeth a hyfforddiant a gynigir i ofalwyr maeth. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i symud plant i leoliadau mabwysiadol, gan ddefnyddio canllawiau ac asesiadau risg a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Cyflwyno rhaglen Barod am Waith i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth pobl ifanc.
Parhau i ddatblygu gwaith mewn perthynas â Thechnolegau Cynorthwyol.
Gwella cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd drwy'r Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc.

4. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol

Datblygu'r Gweithlu

Yn ystod 2019-20, roedd gennym oddeutu 2000 o lefydd hyfforddiant statudol ar gael i staff eu mynychu ac roeddem wedi llenwi 92% o'r llefydd hynny. Cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant i uwchsgilio'r gweithlu o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Addysg a Gwasanaethau Plant, roedd hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithio i bob aelod o'r Gweithlu Plant.
- Deall Iechyd Meddwl, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Prevent – gweithio gyda Gofalwyr Ifanc.
- Asesiadau Oedran a Gweithio gyda Phlant ar eu Pennau eu Hunain - Gwasanaethau Plant a Gofalwyr Maeth
- Cefnogi gweithrediad Rheoliadau newydd Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018. Fe wnaeth Tîm Datblygu'r Gweithlu Cyngor Sir Ddinbych arwain ar ddigwyddiadau rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

- Gweithredu Fframwaith Maethu Cenedlaethol 2019 a safoni'r hyfforddiant Gofalwr Maeth.
- Cefnogi ffyrdd newydd o ystyried Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth a hyrwyddo'r defnydd o ddysgu anffurfiol i brofi cymhwysedd.
- Roedd y cyrsiau Dementia yn cynnwys cyfleoedd dysgu drwy brofiad megis bws Taith Dementia Ar-lein.

Mwy Na Geiriau

O fewn ein Cartrefi Gofal Preswyl mewnol, rydym wedi parhau i sefydlu Mwy Na Geiriau – mae symbol o iaith ddewisol bellach wedi'i arddangos ar ddrysau preswylwyr, mae ffeiliau achosion hefyd yn cynnwys yr un symbol er mwyn nodi siaradwyr Cymraeg a chynnig gwasanaeth iddynt yn eu hiaith ddewisol.

Rhoddwyd cyflwyniad mewn Cynhadledd Darparwyr Gofal ac mae eitemau mewn perthynas â Mwy Na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol wedi'u cynnwys mewn Newyddlenni Darparwyr chwarterol. Caiff posteri a chortynnau gwddf iaith Gwaith hefyd eu dosbarthu, yn ogystal â sticeri iaith Gwaith.

Mae disgwyl i bob aelod o staff mewnol y Cyngor gwblhau modiwl e-ddysgu ar 'Ymwybyddiaeth Iaith' a staff sy'n newydd i'r Adran dderbyn cyflwyniad ar Mwy Na Geiriau fel rhan o'u cyflwyniad. Rhwir cyflwyniad tebyg i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn yr Awdurdod. Rydym hefyd wedi diweddarau'r ffurflen 'lleoliadau' ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol er mwyn eu galluogi i nodi eu sgiliau ieithyddol er mwyn eu paru ag Aseswyr penodol.

Cynhaliwyd cwrs hanner diwrnod i staff 'y rheng flaen' a'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad sy'n anelu at helpu unigolion i fagu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfarch a chwrdd â'r cyhoedd yn Gymraeg a chyflawni'r Cynnig Gweithredol.

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y broses o gasglu gwybodaeth ar lefel sgiliau staff – yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i nodi a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Cynigwyd cwrs blas ar y Gymraeg i weithwyr Gofal, yn ogystal â chwrs 'Rhowch Gynnig ar y Gymraeg' wedi'i deilwra ar gyfer staff Gofal sydd wedi derbyn addysg ddwyieithog ond angen magu hyder i ddefnyddio eu Cymraeg.

Mae 4 aelod o staff wedi mynychu cwrs Preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Yn ogystal â hynny, cynhelir sesiynau 'paned a sgwrs' i roi cyfle i staff mewnol ymarfer eu Cymraeg.

Cynhaliwyd cwrs 'Mwy Na Geiriau' ar gyfer Rheolwyr Adrannau Plant ac Oedolion i sicrhau bod adrannau'n arwain ac yn perchnogi 'Mwy Na Geiriau'.

Hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghynhadledd Ranbarthol Timau Adnoddau Cymunedol.

Hyrwyddo dyddiau penodol ar gyfer y sector gofal gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Sumai Shumai a Dydd Miwsig Cymru.

b) Ein hadnoddau ariannol a'n cynlluniau i'r dyfodol

Cyflwynir adroddiadau misol ar yr alldro ariannol i'r weithrediaeth sy'n rhagfynegi'r sefyllfa diwedd blwyddyn. Cyfeirir at eithriadau neu bwysau yn yr adroddiadau, gyda chamau lliniaru. Pennir y gyllideb flynyddol yn dilyn proses hir o adolygu pwysau ac arbedion ar draws yr holl wasanaethau ac ymgysylltu ag aelodau etholedig ac eraill fel rhan o'r broses.

Yn y tymor canolig, mae'r cyngor yn dilyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig treigl dros dair blynedd sy'n rhoi amcangyfrif o sefyllfa ariannol y cyngor dros y cyfnod ac yn cynnwys amcangyfrifon, drwy weithio gyda gwasanaethau, o arbedion sy'n ofynnol neu anghenion am gyllid ychwanegol. Roedd y broses gynllunio dymor canolig hon wedi helpu i ganfod a diogelu, drwy gyllideb y Cyngor, cyllid ychwanegol yn 2020-21. Roedd hyn wedi helpu i ddelio â phwysau cynyddol sy'n ganlyniad yn bennaf i chwyddiant blynyddol mewn ffioedd gofal a chostau cynyddol llety i'r digartref mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion (£2.6 miliwn) a gwasanaethau plant (£1.5 miliwn).

Mae cynllunio ariannol mewnol prif ffrwd yn digwydd yn fisol yng nghyfarfodydd timau arwain/ rheoli'r Gwasanaeth. Canolbwyntir ar fonitro perfformiad a'r sefyllfa ariannol yn y meysydd sydd o dan y pwysau mwyaf. Mae swyddogion cyllid y Gwasanaeth hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth a Thîm Gweithredol y Rheolwyr.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol. Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys adroddiadau i fonitro cynnydd ar unrhyw gamau sy'n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi'i hirsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob pennaeth gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r panel ym mhob cyfarfod ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau yn cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a'n harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â'r broses ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, mae'r cyngor yn gweithredu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli perfformiad sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau i'r Uwch Dîm Arwain; Pwyllgorau Craffu; a'r Cabinet, a chyflwynir adroddiadau amrywiol i Bwyllgorau Craffu ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol, fel rhai ar Ganmoliaeth a Chwynion.

Gwaith partneriaeth effeithiol yw llwyddiant ein Pwyntiau Siarad yn y gymuned, lle rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis Cymdeithas Alzheimer's, Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych, Prime Cymru, Natwest Banking a Sir Ddinbych yn Gweithio. Caiff ystod o wasanaethau eu comisiynu a'u darparu gan ystod o sefydliadau'r sector annibynnol, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector, megis y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, Age Connects a'r Groes Goch Brydeinig.

Nid yn unig y mae darparu dull integredig a chydweithredol i ofal ac iechyd cymdeithasol yn ofyniad statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond mae hefyd yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Yn ystod 2019-20, mae ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ogystal â phartneriaid y trydydd sector a'r sector annibynnol wedi bwrw ymlaen â'r Timau Adnoddau Cymunedol integredig er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau di-dor i'n dinasyddion.

Mae Addysg a Gwasanaethau Plant ac ysgolion wedi gweithredu'n gynnar er mwyn nodi 'dysgwyr diamddiffyn' nad ydynt o bosibl yn agored i wasanaethau statudol. Rhwir cynlluniau ar waith i gysylltu â'r dysgwyr diamddiffyn a nodwyd ac a gytunwyd ar draws y gwasanaeth. Mae llwybr cytunedig ar gyfer achosion agored i sicrhau fod y mwyafrif o blant / pobl ifanc diamddiffyn yn derbyn lle mewn canolfannau ysgolion.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol

Rhestr termau

Ar Ymyl Gofal

Mae'r cymorth hwn ar gael i deuluoedd agored i niwed sydd â phlant sy'n wynebu'r risg o ddod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae manylion ar gael ar wefan [Llywodraeth Cymru](#).

Cwrs 'Understanding Your Child' Solihull

Mae dull Solihull yn rhaglen ar gyfer y DU sy'n ceisio gwella iechyd a llesiant emosiynol drwy gyfraniad gan ymarferwyr a rhieni. Cyflawnir hyn drwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant i'r gweithlu cyfan sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd. Bellach mae mwyafrif yr ymwelwyr iechyd yn y DU wedi'u hyfforddi drwy'r model hwn. Mae nifer mawr o ymarferwyr plant a theuluoedd, yn amrywio o fydwragedd i weithwyr cymdeithasol, wedi'u hyfforddi drwy'r model hwn. Mae ysgolion cyfan wedi derbyn hyfforddiant drwyddo. Mae rhai aelodau o'r heddlu, gwasanaethau tân a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i oedolion wedi'u hyfforddi. Mae rhagor o fanylion ar wefan [Cyngor Sir Ddinbych](#).

Cyllidebau Cymorth (a elwir hefyd yn Daliadau Uniongyrchol)

Mae'r rhain yn cael eu talu'n unswydd i brynu gwasanaethau neu gyfarpar i gwrdd ag angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu'r angen am gymorth gan ofalwr. Oherwydd hyn, nid ydynt yn effeithio ar hawliau i dderbyn budd-daliadau nac ar dreth incwm. Eu bwriad yw gwella'r dewis, rheolaeth ac annibyniaeth sydd gan bobl. Gall unigolion weithio gyda'r awdurdod lleol i benderfynu sut i gwrdd â'u hanghenion am ofal a chymorth drwy ddefnyddio'r taliadau hyn. Gallant benderfynu pwy fydd yn darparu'r cymorth hwnnw a sut, ble a pha bryd y caiff ei ddarparu.

Cynllun Work Start

Mae'r cynllun yn rhan o ddull gweithredu ehangach Sir Ddinbych yn Gweithio i ddatblygu ac adeiladu cymunedau cydnerth ac mae'n canolbwyntio ar ddelio â thlodi drwy wella cyflogadwyedd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae'n ceisio helpu i ddatblygu gweithlu medrus a chyfrannu at gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor – bod pobl iau yn dymuno byw a gweithio yma, a bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny. Mae'n cyflawni hyn drwy ddarparu cyfleoedd profiad gwaith â thâl a heb dâl i bawb dros 16 oed sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sydd mewn tlodi, neu'n wynebu'r risg o dlodi.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (DGCLI) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (DRhAGC) 2016

Mae DGCLI yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd ag angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#). Mae DRhAGC yn cryfhau'r amddiffyniad i bobl sydd â'i angen, yn sefydlu system rheoleiddio sy'n unol â DGCLI ac yn creu system rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar bobl sydd ag angen gofal a chymorth, ac ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#).

Dull Tîm o Amgylch yr Unigolyn

Gweithio aml-asiantaeth ar draws y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod y sgiliau proffesiynol priodol ar gael i gwrdd ag anghenion perthnasol yr unigolyn mewn ffordd amserol.

Iaith Gwaith

Mae'n helpu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith ac i rannu adnoddau. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan [Busnes Cymru](#).

Menter Mesur y Mynydd Llywodraeth Cymru

Ei phwrpas yw ymgysylltu â phobl yng Nghymru er mwyn cynhyrchu asesiad dilys, seiliedig ar brofiad, o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Mesur y Mynydd](#).

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Partneriaeth Dysgu Sir Ddinbych

Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol, y Trydydd Sector ac Iechyd sy'n canolbwyntio ar Iechyd a Llesiant Meddyliol. Ei nod yw sicrhau bod dulliau hunangymorth a datblygu ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol

Ni fu erioed gymaint o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar gynnydd, mae mwy o bobl yn mynd i mewn i'r ysbyty ac yn defnyddio gwasanaethau gofal cartref, mae iechyd meddwl pobl y rhanbarth yn gwaethygu, ac mae pobl ag anabledau dysgu yn byw'n hirach gydag anghenion corfforol a seicolegol mwy cymhleth. Mae pryderon mawr am lefelau'r galw ac a ellir cynnal y system bresennol mewn cyfnod pan yw adnoddau'n prinhaus a chyllidebau'n cael eu torri'n llym. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid tymor byr i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio â gwahanol bartneriaid i drawsnewid y dull o ddarparu cymorth gofal iechyd a chymdeithasol. Mae manylion ar gael ar wefan [Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru](#).

Pwyntiau Siarad

Fe'u cynhelir mewn llyfrgelloedd lleol ledled y sir i gynnig cyfle i gael sgwrs wyneb yn wyneb am yr hyn sy'n bwysig i chi. Bydd pobl o nifer o wahanol sefydliadau lleol wrth law i gynnig gwybodaeth, cyngor neu gymorth, a gallwch gael gwybod pa help sydd ar gael yn lleol i hybu'ch iechyd a llesiant.

Sgyrsiau Cydweithredol

Yn aml bydd ymarfer amddiffyn plant yn dod â gweithwyr cymdeithasol a staff eraill i wrthdrawiad â theuluoedd. Mae sgyrsiau cydweithredol yn dechrau drwy ganfod cryfderau a beth sydd bwysig i deuluoedd. Mae'n ddull sy'n rhoi pwys ar beidio â chanolbwyntio ar ddiffygion neu feirniadu. Mae'n ceisio sicrhau na fydd teuluoedd yn colli eu hymdeimlad o reolaeth ac na fyddant yn troi'n amddiffynnol.

Symud ag Urddas

Er 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi gweithio ar y prosiect hwn yn y Tîm Adolygu, gan hyrwyddo cynlluniau ymarferol i gyflwyno newidiadau yn y dull o asesu preswylwyr yn Sir Ddinbych ar gyfer derbyn cymorth o ran codi a symud.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Mae'n gyfrifol am gwmpasu'r mater, ymchwilio i'r arferion gorau, a nodi ffyrdd i ddarparu hyfforddiant effeithiol a chyrraedd y grwpiau staff priodol (yn cynnwys gwasanaethau'r awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau darparwyr). Gallai hyn gynnig y fantais o gyflymu'r broses ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai a gallai wella llesiant a rhoi mwy o ymdeimlad o reolaeth i ddinasyddion a'u gofalwyr, gan eu cyfnerthu a rhoi mwy o ran iddynt yn y broses.

Tai Gofal Ychwanegol

Mae'r rhain yn cynnig y fantais o fyw gartref ynghyd â darpariaeth gofal bwrpasol sydd ar gael ar y safle os bydd angen. Bydd tenantiaid yn byw mewn eiddo hunangynhwysol, nid mewn cartref preswyl, a bydd ganddynt eu drws ffrynt eu hunain. Mae hyn yn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth. Mae manylion ar gael ar wefan [Cyngor Sir Ddinbych](#).

Tai Yn Gyntaf

Mae Tai Yn Gyntaf yn athroniaeth sy'n gweld gwerth mewn hyblygrwydd, cymorth yn ôl angen yr unigolyn, dewis i gleientiaid, ac ymreolaeth. Nid yw'n ymwneud â thai'n unig. Mae gwasanaethau cefnogol yn rhan o'r model Tai Yn Gyntaf. Gall hyn gynnwys gwasanaethau cymorth ffurfiol fel meddyg, therapydd, neu weithiwr cymdeithasol.

Timau Adnoddau Cymunedol (TACau)

Mae'r rhain yn cynnig dull mwy cyfannol o ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol yn y gymuned lle mae staff iechyd (yn cynnwys nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a thimau iechyd meddwl pobl hŷn) a staff gwasanaethau cymdeithasol (yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol) i gyd yn gweithio o'r un man. Mae naw tîm ar y cyd yn Sir Ddinbych a Chonwy sy'n canolbwyntio ar gydweithio'n agosach i ddarparu gofal yn agosach i gartref, gan gynnig gwell darpariaeth i'r boblogaeth a mwy o sylw a buddsoddi ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar. Gweler y manylion yn [Llais y Sir](#).

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019 - 2020

Un Pwynt Mynediad (UPM)

Mae'r tîm yn cynnwys staff profiadol o sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ran y gwasanaethau sydd ar gael. Yr UPM yw'r fynedfa at wasanaethau sy'n sicrhau eich bod yn cael y gofal priodol, yn y lle priodol gan bobl sydd â'r sgiliau priodol ac ar yr adeg briodol, y tro cyntaf. Mae manylion ar wefan [Cyngor Sir Ddinbych](#).

Y Gronfa Gofal Integredig (CGI)

Mae'n darparu cymorth integredig i ddinasyddion o lawer math sydd ag anghenion am ofal a chymorth, yn cynnwys y rheini sydd ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu fathau eraill o niwroamrywiaeth, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr ac, yn fwyaf diweddar, plant sydd mewn gofal neu'n wynebu'r risg o fynd i ofal.

Yn holl ranbarthau Cymru, mae'r CGI yn ariannu prosiectau a gwasanaethau sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor i bobl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a helpu pobl i fyw eu bywyd yn eu ffordd eu hunain.

Y Model Camau Newid a Chredoau Iechyd

Mae astudiaethau o newid mewn ymddygiad wedi dangos bod addasu ymddygiad yn galw fel arfer am ddilyn cyfres o gamau gan yr unigolyn i baratoi at newid. Ar y dechrau, ni fydd yr unigolyn yn ymwybodol o'r canlyniadau i'w ymddygiad a bydd yn gwrthod newid. Yn y diwedd, bydd yr unigolyn wedi parhau â'i ymddygiad newydd am fwy na chwe mis a bydd yn dangos dyfalbarhad wrth barhau â'r newid. Mae'r model yn awgrymu y bydd negeseuon yn sicrhau newid cadarnhaol mewn ymddygiad os byddant yn targedu'r rhwystrau, buddion a bygythiadau a nodwyd.